

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6

Adroddiad Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2019

Ystad y Goron

Rhagfyr 2019

## Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Ystad y Goron yn fusnes eiddo tirol £14.3 biliwn yn y Deyrnas Unedig gyda phortffolio sy'n cynnwys tir, eiddo a gwely'r môr allan i 12 milltir forol. Mae gan Ystad y Goron gyfansoddiad unigryw, gan reoli asedau ar ran y Goron, dan delerau Deddf Ystad y Goron 1981, a chaiff ei oruchwylio y Trysorlys.

Rydym yn sylweddoli gwerth yr adnoddau naturiol y dibynnwn arnynt i gynnal busnes, a'r effaith a gawn arnynt (yn gadarnhaol a negyddol) drwy ein gweithgaredd. Rydym hefyd wedi dechrau gwaith ar ddadansoddi gwahanol sefyllfaoedd newid hinsawdd i ddeall yn well beth yw'r effeithiau ar ein busnes.

Mae'r amgylchedd naturiol yn un o'n 'materion pwysig' y cyhoeddir arno yn ein [Hadroddiad Blynyddol](#). Mae adnoddau cyfyngedig ein planed, cynnydd mewn poblogaeth a'r pwysau dilynol ar ein hinsawdd, yn ogystal ag ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein diben, lleodd gwych drwy fasnachyddiaeth ofalus.

Mae un o'n tair nod amgylcheddol yn canolbwyntio ar 'gynefinoedd a lleoedd iach' - erbyn 2030 i fod yn creu lleoedd iach lle gall ein cwsmeriaid, gweithwyr cyflogedig, cymunedau a chynefinoedd naturiol ffynnu. Gallwn ddarllen mwy am ein dull gweithredu yn ein hadroddiad [Performance against our capitals](#). Mae Ystad Windsor, yn neilltuol, yn enghraifft wych o'n sylw i gydnerthedd barhaus ecosystemau a'r gwasanaethau a ddarparant.

## Cyfrifoldeb yng Nghymru

Mae cyfrifoldebau Ystad y Goron yng Nghymru yn cynnwys:

- Tir gwledig ac amaethyddol, yn cynnwys tua 27,800 hectar (67,700 erw) o dir comin Cymru a diddordebau mwynau yn unig o tua 100 hectar (247,000 erw).
- Gwely'r môr allan i 12 filltir forol a thua 65% o flaendraeth Cymru.

Dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan Ystad y Goron ddyletswydd i 'geisio cynnal a chyfoethogi amrywiaeth lle bo hynny'n rhan briodol o'u swyddogaethau ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'. Oherwydd natur ein perchnogaeth o ddaliadau yng Nghymru, ar y tir, gwely'r môr a blaendraeth - sy'n destun rhyngddynt i hawliau comin a hawliau cyhoeddus i bysgota a mordwyo, rydym yn gweithredu o amgylch cydnerthedd ecosystemau a gwella bioamrywiaeth mewn modd sy'n gydnaws gyda'n cyfrifoldebau. Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio sail yr hyn a wnawn i gyflawni ein dyletswydd.

## Cydnerthedd ecosystemau

Oherwydd natur ein cyfrifoldebau yng Nghymru, caiff ein dull gweithredu yng nghyswllt cydnerthedd ecosystemau ei lunio gan ein gwerthoedd a'i seilio mewn dull partneriaeth lle'r ydym yn cydweithio gydag ystod amrywiol o sefydliadau yng Nghymru.

Islaw mae enghreifftiau o sut mae Ystad y Goron, i'r graddau sy'n gyson gyda gweithrediad cywir ein swyddogaeth, wedi cyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

## 1. Gwledig - tir comin Cymru

Mae llawer o hyn yn destun hawliau comin dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1967. Er y caiff y tir hwn ei ddefnyddio'n bennaf fel porfa arw, mae hefyd yn gweithredu fel adnodd naturiol bwysig i bawb ei mwynhau yng nghefn gwlad Cymru. Mae hawl mynediad cyhoeddus i bron yr holl dir comin, naill ai dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 neu dan ddeddfwriaeth 1967. Fel arfer mae tir comin yn cael ei drin yn llai nag unrhyw dir fferm cyfagos ac mae'n adnodd pwysig ar gyfer cadwraeth natur, hamdden ac amaethyddiaeth. Mae ein dull rheoli yn caniatáu dad-ddofi naturiol yr ardaloedd sy'n arwain at fwy o fioamrywiaeth.

Caiff tiroedd comin Cymru eu nodweddu gan y mathau dilynol o gynefinoedd:

- Glaswelltir asidig sych heb ei wella
- Glaswelltir asidig wedi ei wella'n rhannol
- Glaswelltir asidig corsiog
- Rhedyn
- Gorgors
- Rhostir
- Glaswelltir wedi ei wella.

Cynhaliwn arolygon cylchol ar bob ardal o dir comin unwaith bob chwe mlynedd i ddynodi gweithgareddau sy'n ardaro ar ein perchnogaeth a hefyd, drwy eu natur, yn tanseilio cydnerthedd ecosystemau. Mae'r arolygon hyn yn cynnwys rhannau o Sir Ddinbych/Sir y Fflint, Sir Feirionnydd, Ceredigion, Sir Faesyfed, Sir Gaerfyrddin a Sir Gaernarfon. Enghreifftiau o weithgaredd amhriodol yw ffensio heb awdurdod, llechfeddiant, aredig ac ailhadu, tynnu mwynau, adeiladu, a meddiannu o unrhyw fath.

Mae adroddiadau'r arolwg yn nodi gorchudd tir a sut y newidiodd ers yr arolwg blaenorol e.e. twf coed aeddfed ac ychwanegol, gyda dynodi rhywogaethau. Mae adroddiadau hefyd yn cynnwys tystiolaeth ffotograffig o fywyd gwyllt, megis adar gwlypdir neu geffylau gwyllt, ac o weithgaredd heb awdurdod sydd angen camau gweithredu i unioni e.e. tipio gwastraff.

## 2. Diddordebau mewnol

Ar hyn o bryd mae gennym naw safle ar brydles ar gyfer echdynnu mwynau. Yn ychwanegol, rydym yn rheoli hawliau i adneuon aur ac arian, a adnabyddir fel y Mwyngloddiau Brenhinol. Gweithiwn gyda'n cwsmeriaid i gyflawni dyletswyddau cynllunio sy'n cynnwys mesurau gwarchod yr amgylchedd a dylunio cynlluniau adfer effeithlon, sy'n cynnwys amcanion cadwraeth a bioamrywiaeth a gytunwyd.

## 3. Gwely'r Môr

### 3.1 Cyflwyniad

Ystad y Goron yw perchen gwely'r môr allan i 12 filltir forol, gan olygu fod gennym fuddiannau yn cynnwys ynni adnewyddadwy, pibelli olew a nwy, echdynnu agregau morol, ceblau telathrebu a phŵer. Mae gwely'r môr yn destun hawliau cyhoeddus ar gyfer pysgota a mordwyo. Yn ychwanegol, rydym yn dal yr hawliau i'r adnoddau ar y silff gyfandirol, megis adnoddau naturiol ac ynni ar y môr, ond yn eithrio tanwyddau ffosil.

Rydym hefyd yn berchen tua 65% o flaendraeth Cymru ac wedi dyfarnu prydlesau tir i wahanol weithrediadau porthladd a marinas.

Felly mae gwely'r môr a'r blaendraeth yn rhyngweithio gyda nifer o wahanol sectorau ac fel landlord cyfrifol, mae ystyriaeth bioamrywiaeth yn ganolog i ni wrth wneud penderfyniadau.

### 3.2 Safleoedd dynodedig

Mae gan ein gwely môr a blaendraeth nifer o wahanol ddynodiadau amgylcheddol, yn cynnwys:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI);
- Parthau Cadwraeth Morol (MCZ);
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA);
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC);
- Safleoedd RAMSAR;
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR);
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB).

Wrth ddyfarnu lesau a thrwyddedau ar gyfer gweithgareddau, rydym bob amser yn rhoi ystyriaeth i'r dynodiadau hyn. Mae ein mapio Gwybodaeth System Ddaearyddol (GIS) mewnol yn ein galluogi i gynnal 'gwiriadau agosatrwydd' i'n hysbysu am unrhyw orgyffwrdd gyda safleoedd dynodedig cyn dyfarnu unrhyw hawliau gwely'r môr. Mewn rhai achosion, mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i gynnal dadansoddiad pellach o'r gweithgaredd arfaethedig a'i effeithiau posibl fel yr amlinellir islaw.

#### 3.2.1 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)

Dan Adran 28G Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) mae gennym ddyletswydd i gymryd camau rhesymol sy'n gydnaws gyda gweithrediad cywir ein swyddogaeth i hybu cadwraeth a gwella nodweddion arbennig SSSI mewn ardaloedd yr ydym yn berchen arnynt. Fel corff cyhoeddus, mae'n ddyletswydd ar Ystad y Goron i roi hysbysiad i'r corff cadwraeth natur statudol perthnasol (yn yr achos hwn Cyfoeth Naturiol Cymru) cyn rhoi caniatâd am weithrediadau sy'n debygol o niweidio'r nodweddion y caiff yr SSSI eu hysbysu amdanynt. Felly, lle mae ein gwiriad agosatrwydd yn amlygu rhyngweithio posibl gyda SSSI, hysbyswn Cyfoeth Naturiol Cymru am y gweithgaredd a gynigir a maint debygol yr effaith ar nodweddion yr SSSI. Mae'n rhaid i ni wedyn roi ystyriaeth i unrhyw gyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn rhoi caniatâd i'r gweithgaredd ddechrau.

#### 3.2.2 Parthau Cadwraeth Morol (MCZ)

Dan Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009, mae Ystad y Goron yn ystyried ei hun yn awdurdod cyhoeddus ac o'r herwydd mae'n ddyletswydd gyfreithiol arnom i sicrhau wrth weithredu ein swyddogaeth, ein bod lle gallwn yn hyrwyddo neu (os nad yw hynny'n bosibl) o leiaf yn peidio llesteirio cyflawni amcanion cadwraeth MCZ. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu pan fo Ystad y Goron yn ymrwymo i (neu'n newid) cytundeb gwely'r môr, fod yn rhaid i ni ystyried effeithiau posibl y cytundeb hwnnw ar y cynefinoedd a rhywogaethau y dynodwyd MCZ ar eu cyfer. Fel gyda'r SSSI, lle mae ein gwiriad agosatrwydd yn dangos rhyngweithio posibl gyda MCZ, rydym yn hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru am y gweithgaredd y gynigir a maint debygol yr effaith ar nodweddion yr MCZ. Mae'n rhaid i ni wedyn roi ystyriaeth i unrhyw gyngor

neu arweiniad a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn rhoi caniatâd i'r gweithgaredd ddechrau.

### 3.2.3 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Caiff Ystad y Goron ei ystyried yn awdurdod cymwys ar gyfer dibenion Rheoliadau Cynefinoedd. Dan y Rheoliadau Cynefinoedd, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau cymwys i weithredu eu swyddogaethau cyn belled ag y maent yn berthnasol i gadwraeth natur, yn cynnwys cadwraeth forol, i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion y Rheoliadau. Mae hyn yn golygu fod angen i ni gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) /Asesiad Priodol (AA) ar lefel cynllun ar gyfer cynlluniau neu brosiectau sy'n debyg o gael effaith sylweddol, naill ai ar ben eu hunain neu mewn cyfuniad gyda chynlluniau neu brosiectau eraill, ar safleoedd Ewropeaidd dynodedig. Felly byddai hyn yn weithredol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a RAMSAR.

Dim ond os nad oes effeithiau niweidiol ar safle Ewropeaidd lle mae amgylchiadau eithriadol iawn lle mae angen cyngor cyfreithiol y gall Ystad y Goron fabwysiadu cynllun neu brosiect (rhaid bod nad oes diwydiannau a rhesymau hanfodol budd cyhoeddus tra phwysig).

### 3.3 Cylch 4 Prydlesau Gwynt ar y Môr

Mae Ystad y Goron wedi dechrau ar ei chyfle prydlesau mawr cyntaf am ddegawd er mwyn sicrhau bod cynlluniau cadarn yn yr arfaeth ar gyfer defnyddio gwynt cost isel ar y môr. Gan gydweithio gyda rhanddeiliaid, rydym wedi cynnal dadansoddiad gofodol helaeth o'r adnoddau a'r cyfyngiadau technegol ar wely'r môr o amgylch Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, i ddeall pa ardaloedd sy'n debygol o gynnig yr adnodd gorau ar gyfer datblygu gwynt ar y môr ar hyn o bryd.

Mae'r sylfaen tystiolaeth hwn wedi llywio ein gwaith i fireinio'r rhannau o wely'r môr sydd ar gael i'r farchnad drwy Cylch 4 lle caiff datblygwyr gyfle i ddynodi a chynnig eu safleoedd prosiect eu hunain. Rydym yn gwneud data a gwybodaeth perthnasol i'r adnodd datblygu ym mhob un o'r ardaloedd hyn ar gael i ddatblygwyr ar wedd 'Adroddiad Nodweddion' i helpu llywio eu dynodiad o safleoedd prosiect posibl. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar bynciau megis ornitholeg, pysgota, ecoleg, dynodiadau amgylcheddol a gweithgaredd milwrol ac awyrennau. O fewn yr adroddiadau hyn mae disgrifiad o'r bynciau hyn gyda disgrifiad o risg yn gysylltiedig gyda datblygu gwynt ar y môr yn yr ardal honno ac yn agos at y derbynydd.

Er ein bod wedi dynodi meysydd penodol i'w gwneud ar gael yng Nghylch 4 fe wnaethom yn bwrpasol gwblhau Adroddiadau Nodweddion ar gyfer pob ardal a ddynodwyd o fewn yr ardal adnodd technegol ffafriol. Mae Ystad y Goron yn gwneud yr adroddiadau hyn ar gael nid yn unig i gynigwyr, ond hefyd i'r cyhoedd, gan y credwn ei bod yn bwysig rhannu ystyriaeth o'r rhyngweithio hyn, yn cynnwys rhyngweithio bioamrywiaeth, fel y gellir eu defnyddio i alluogi gwaith posibl yn y dyfodol, adeiladu arnynt gydag ymchwil bellach, arloesedd yn y dyfodol a llywio gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth bellach ar Broses Prydlesau Cylch 4, yn cynnwys dolenni i'r Adroddiadau Nodweddion, ar gael ar ein [gwefan](#).

### 3.4 Agregau morol

Mae Ystad y Goron yn gyfrifol am drwyddedu echdynnu agregau lle'r ydym yn rheoli gwely'r môr. Mae agregau morol yn adnodd bwysig i Gymru, gan gyfrif am tua 70% o'r tywod a'r gro a werthir yn Ne Cymru.

Gweithiwn yn agos gyda'r diwydiant, drwy Gymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain (BMAPA) ac rydym ar y cyd wedi cyllido rhaglen ymwybyddiaeth bioddiogelwch i gefnogi Cynllun Rheolaeth Bioddiogelwch cysylltiedig a gafodd ei ddatblygu a'i weithredu gan y diwydiant ym Môr Hafren. Ynghyd â rhanddeiliaid eraill yn cynnwys BMAPA a Llywodraeth Cymru, fe wnaethom hwyluso creu set data safonol ar gyfer microffawna benthig a gwaddodion drwy integreiddio miloedd o samplau o waddodion gwely'r môr. Defnyddir y set data a gafwyd i ddynodi patrymau gofodol ac amser mewn dosbarthiad ffawna a rôl cyfansoddiad gwaddodion wrth benderfynu ar batrymau o'r fath.

### 3.5 Gweithgareddau arfordirol - blaendraeth

Rydym wedi dyfarnu pryddesau rheoleiddio dros rannau mawr o flaendraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd wedi galluogi rheolaeth leol gydlynol o'r blaendraeth a'r gefnwlod, gan fod o fudd i fioamrywiaeth yn y safleoedd sensitif a dynodedig iawn yma.

Rydym yn dyfarnu pryddesau adar gwlypdir a chadwraeth yn unol â Chyfarwyddebau yr Undeb Ewropeaidd a gwahanol ddeddfwriaeth cadwraeth cenedlaethol. Mae clybiau adar gwlypdir yn gwarchod yr ardaloedd hyn i leihau saethu anghyfreithlon, darparu ardaloedd lloches a chynnal gweithgareddau cadwraeth a gwaith arolwg. Mae'r gwaith hwn yn helpu i sicrhau y caiff y gweithgaredd ei reoli mewn modd cynaliadwy.

Gan gydnabod problem llygredd morol, rydym yn noddi y Gyfres Glanhau Traethau Hydref y Deyrnas Unedig a drefnir Surfers Against Sewage sydd dros y naw mlynedd ddiwethaf wedi tyfu o bedwar lleoliad i 2,210 yn 2019, gan ddefnyddio 90,000 o wirfoddolwyr a chael gwared â 128 tunnell fetrig o sbwriel gan ein helpu i reoli'r blaendraeth mewn modd cynaliadwy.

### 3.6 Rhannu data

Fel y nodir o fewn yr wybodaeth Cylch 4 a ddisgrifir uchod, rydym yn gefnogol iawn i rannu data i helpu llywio gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach o'r amgylchedd morol. Mae Ystad y Goron yn cynnal y Gyfnewidfa Data Morol (MDE), system dull rheoli data a ddatblygwyd gennym i gadw, trin a rhannu data arolwg a gasglwyd gan ein cwsmeriaid ar y môr. Mae gennym ddata helaeth ar gael ar yr MDE, tua 179TB gyda 62% yn awr ar gael yn gyhoeddus. Yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys data gan ein cwsmeriaid gwynt ar y môr, tonnau a llanw ac agregau. Mae peth o'r wybodaeth yn ymwneud â bioamrywiaeth, er enghraifft cynefinoedd benthig a rhywogaethau, ac mae'r data hwn ar gael i'w lawrlwytho i helpu rhoi tystiolaeth werthfawr am weithgareddau presennol, gwrthdaro a phryderon amgylcheddol.

Fel rhan o'n hymwneud yng Ngrŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, rydym wedi medru rhannu ein tystiolaeth yn cyfeirio at ardaloedd adnodd ar gyfer sectorau megis agregau a ffynonellau adnewyddadwy. Mae hyn wedi helpu i lunio'r dull gweithredu ar gyfer yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn y Cynllun. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy weithredu'r Cynllun i rannu data a

gwybodaeth pellach fel y daw er gael er mwyn diweddarau tystiolaeth a sicrhau fod y Cynllun mor effeithlon ag sydd modd.

### 3.7 Gweithio mewn partneriaeth

Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r rhwydwaith o Ardaloedd Gwarchodaeth Morol ac wedi cymryd rhan mewn nifer o grwpiau yn canolbwyntio ar wella bioamrywiaeth ar draws yr amgylchedd morol, er enghraifft y grŵp gorchwyl a gorffen bioamrywiaeth morol, grŵp llywio rheoli Ardaloedd Gwarchodaeth Morol a Grŵp Gweithredu ac Ymgynghorol Morol Cymru a'r Bartneriaeth Moroedd Glân. Mae ein cyfraniadau i'r grwpiau a'r partneriaethau hyn yn ein helpu i sicrhau dull cydlynol ar gyfer gwneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth ar draws prosiectau morol.

### **Adroddiadau Adran 6 yn y dyfodol**

Yn y dyfodol byddwn yn cyfeirio at yr hadroddiad hwn ar ein dyletswyddau Adran 6 yn ein hadroddiad uchafbwyntiau Cymru, a gyhoeddir ar ein gwefan ym mis Mehefin bob blwyddyn. Bydd yr adroddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan.

Byddwn hefyd yn edrych ar adolygu ein hymagwedd? at ein dyletswyddau Adran 6 yn 2020 ac yn adeiladu ar ein dull gweithredu hyd yma drwy dynnu ein gweithgareddau ynghyd a datblygu cynllun neilltuol, y byddwn yn ei rannu ar ein gwefan maes o law.